Cymde [illegible] wen

# Y Casglwr

Rhif 74 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn GWANWYN 2002

### Maredudd ap Huw yn adrodd hanes


## Ap Ceredig: Cymwynaswr Cerdd a Anghofiwyd

Mae'n debyg mai un o'r cyfnodau mwyaf lliwgar a chynhyrfus yn holl hanes cerddoriaeth ein cenedl oedd y cyfnod hwnnw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan gyrhaeddodd y gân Gymraeg binacl ei phoblogrwydd.

Roedd yn gyfnod cynhyrfus i gyfansoddwyr, beirdd a chantorion fel ei gilydd, ac mae'n weddus cofio mai i bartneriaethau llwyddiannus yn hytrach nag i wasanaeth neu i ymdrechion unigolion fel y cyfryw, y gellir priodoli'r bri ysgubol a fu ar y gân Gymraeg mewn gwirionedd.

Soniwyd ac ysgrifennwyd llawer dros y blynyddoedd am gampau rhai o'r cyfansoddwyr mwyaf blaenllaw, megis Joseph Parry, William Davies, R.S. Hughes a John Henry, gwŷr a ddaethant i gyd yn eilunod i'r rhai a fyddai'n mynychu'r cyngherddau a'r cyfarfodydd diwylliannol a chystadleuol. A rhoddwyd bron llawn cymaint o sylw gan lenorion cerddorol y genedl i rai o'r cantorion mawr y cyflwynwyd y prif ganeuon iddynt (ac y gwelir eu henwau ar y copïau argraffedig o'r caneuon), ag a roddwyd i'r cyfansoddwyr. Roedd medru dweud rhyw ganrif a chwarter a llai yn ôl fod Eos Morlais, neu Edith Wynne, neu Lucas Williams wedi anfarwoli rhyw gân neu'i gilydd yn gyfystyr â medru dweud fod y gân honno'n taro deuddeg, ac yn ysbardun i bwyllgorau cerdd eisteddfodau, mawr a mân, i ddewis caneuon poblogaidd yn unig fel darnau prawf.

Yn anffodus, fe anghofiwyd yn llwyr bod amryw o brydyddion y genedl hefyd wedi chwarae rhan hanfodol bwysig yng nghynnydd ac yn natblygiad pob un o'r caneuon a lwyddodd i gyrraedd y brig mewn poblogrwydd. Ac ni sylweddolwyd ychwaith ar y pryd bod yna ambell gerddor, digon dinod a dibwys, na fyddai wedi dod i'r amlwg onibai am y bartneriaeth lwyddiannus a fu rhyngddo ef â rhyw brydydd neu'i gilydd. Dros y blynyddoedd, ychydig iawn a ysgrifennwyd am y beirdd, o'i gymharu â'r cerddorion, ac nid yw enwau llawer ohonynt erbyn heddiw yn golygu fawr ddim i'r genedl, nac wedi cael eu hystyried yn ddigon pwysig i'w cynnwys yn yr un o'r geiriaduron bywgraffyddol.



*Edward Jenkins 1836 – 1925.*

Un o'r prydyddion hyn y syrthiodd ei enw i dir angof ers dros dri chwarter canrif bellach yw 'Ap Ceredig', neu Edward Jenkins a rhoi iddo ei enw priodol – gŵr y mae lleng o gantorion y genedl wedi canu geiriau o'i waith dros gyfnod o tua canrif a chwarter, a hynny heb drafferthu erioed gofyn pwy ydoedd. Pwy ynteu oedd Edward Jenkins?

Mae'n amlwg ei fod yn un o'r bobl hynny a 'arbenigodd' yn y gwaith o lunio geiriau ar gyfer rhai o'r caneuon dramatig a chaneuon eraill sentimental yn mynegi hiraeth dwys am fam a chartref, ac y byddai'r cynulleidfaoedd yn dyheu am eu clywed, ac yn dotio wrth wrando ar gantorion mawr y genedl yn eu morio ar lwyfan yr eisteddfod neu'r cyngerdd. Ef a roddodd eiriau'r caneuon bytholwyrdd 'Bwthyn bach melyn fy nhad', 'Cartref fy mebyd' a 'Llam y cariadau' i R.S. Hughes, ac ef hefyd a ysbrydolodd William Davies, y Rhos, i lunio'r unawd bariton adnabyddus 'Cwm Llewelyn', a John Henry i gyfansoddi 'Teyrn y dydd' a 'Gwlad y delyn'. Ond gan nad yw ei enw wedi ymddangos yn y *Bywgraffiadur Cymreig*, nac yn yr un geiriadur bywgraffyddol arall o ran hynny, nid yw'n hawdd erbyn heddiw dod o hyd i ryw lawer o hanes personol Edward Jenkins, serch iddo yn ei ddydd nid yn unig ffurfio partneriaeth â rhai o'r prif gyfansoddwyr i ysgrifennu caneuon, ond hefyd dreulio oes yn noddi cerddorion y genedl, gan drefnu bod rhai o'u gweithiau yn cael eu perfformio, a hynny'n aml y tu allan i Gymru.

Pan euthum i fyw i Gapel Seion ger Aberystwyth rhyw ddwy flynedd yn ôl, buan y sylweddolais fy mod wedi symud i ardal gyfoethog iawn mewn cysylltiadau diwylliannol, cerddorol a llenyddol, ac mai brodor oddi yno oedd Edward Jenkins, y ceir peth o'i hanes gan D. J. Evans yn y glasur fechan honno *Hanes Capel Seion*, a

*(Parhad ar dudalen 23)*